


# LLWYBR ARFORDIR GŴYR



**Gŵyr**  
Tirwedd Cenedlaethol  
**Gower**  
National Landscape

# Llwybr Arfordir Gŵyr Dwyrain

Allwedd ar gyfer y llwybrau troed drosodd



## Dod o hyd i'ch ffordd

Mae cyfeirbyst yn dangos Llwybr yr Arfordir gan ddefnyddio'r logo cragen ddraig.



## Côd Cefn Gwlad

- Cadwch gŵn ar dennyn ac o dan reolaeth agos ger defaid, gwartheg neu adar bridio.
- Gadewch gylwyd fel yr oeddent pan ddaethoch ar eu traws.
- Ewch â'ch holl sbwriel adref gyda chi - gadewch i ni gadw'r arfordir a chefn gwlad yn byrdrefth!



**Côd Cefn Gwlad**  
Parchwch bawb  
Gwarchodwch yr amgylchedd  
Mwynhewch yr awyr agored



## Cyngor Diogelwch

**Clogwyni** – Mae Llwybr yr Arfordir yn mynd yn agos at ymylon clogwyni mewn rhai mannau. Arhoswch ar y llwybr er eich diogelwch a dilynwch unrhyw ddargyfeiriadau sydd ar waith.

**Llanwau** – Mae llanwau uchel yn effeithio ar rai rhannau o'r llwybr, a gallant symud yn gyflym. Mewn rhai achosion, effallai y bydd angen i chi aros i'r llanw fynd ar drai cyn parhau neu fynd arlwybr amgen.

**GWIRIWCH AMSERAU'R LLANW**  
Ffoniwch Wylwyr y Glannau:  
**01646 690909**  
Ewch i: [bbc.co.uk/weather/coast-and-sea/tide-tables](http://bbc.co.uk/weather/coast-and-sea/tide-tables)

**Ffyrdd** – Er bod y rhan fwyaf o Lwybr yr Arfordir yn dilyn llwybrau tawel, mae rhai rhannau ohono'n cynnwys cerdded ar ffyrdd heb balmentydd. Byddwch yn effro oherwydd effallai na fydd gyrrwyr bob amser yn eich gweld.

**Dillad** – Gwisgwch esgidiau addas a gwisgwch yn briodol ar gyfer yr amodau - gall tywydd arfordirol newid yn gyflym!

**Argyfyngau** – Os bydd angen help amoch, ffoniwch **999** (neu **112** ar ffôn symudol) a gofynnwch am Wylwyr y Glannau. Sylwer y gall signal ffôn symudol fod yn wael mewn rhai ardaloedd.



# Llwybr Arfordir Gŵyr Gorllewin

Mae dwy ran o lwybr yr arfordir yng Nghwm Iorwg ar gau. Dilynwch y llwybr amgen trwy bentref Llanmadog, fel y dangosir gan y dotiau oren.

## Cynllunio'ch taith gerdded

Dylech ganiatáu o leiaf 2 diwrnod i gerdded y llwybr arbennig hwn sydd 38 milltir (61 km) o hyd rhwng y Mwmbwls a Crofty. Nid oes rhaid i chi wneud y cyfan ar unwaith - gellir ei gerdded a'i fwynhau mewn rhannau byrach fel y gallwch fwynhau'r profiad ar hyd yr arfordir ar eich cyflymder eich hun.

Gallwch ddigswyl cymysgedd o amodau tir ar hyd y ffordd - llwybrau garw, grisiau, llethrau ac ambell gamfa. Fel Promenâd Bae Abertawe, mae rhai rhannau'n hygyrchi i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a chymhorthion symudedd a'r rheini y mae'n well ganddynt lwybr haws. Gall beicwyr a marchogion hefyd fwynhau rhai adrannau ohono.

Mae'r map hefyd yn dangos llwybrau troed cyhoeddus (yn borffor) a llwybrau ceffylau (yn wyrdd), y gallwch chi eu defnyddio i gynllunio'ch taith gerdded eich hun. Sut bynnag rydych chi'n ei archwilio, mae Llwybr yr Arfordir yn ffordd wych o brofi arfordir trawiadol Gŵyr.

## Adrodd am broblemau

Os dewch o hyd i unrhyw broblemau ar Llwybr yr Arfordir neu ar llwybrau eraill, rhowch wybod i ni:

**Tim Cefn Gwlad**  
[www.abertawe.gov.uk/problemhawtramwy](http://www.abertawe.gov.uk/problemhawtramwy)  
[mynediadigefnglad@abertawe.gov.uk](mailto:mynediadigefnglad@abertawe.gov.uk)

## Allwedd y llwybrau troed

- Llwybr yr arfordir ■■■■■■
- Llwybrau troed cyhoeddus ■■■■■■
- Llwybrau ceffyl cyhoeddus ■■■■■■
- Llwybrau i'r traeth ■■■■■■
- Tir mynediad ■■■■■■
- Parcio P ■■■■■■



Cyhoeddwyd gan Gyngor Abertawe ©  
Hawffraint, Chwefror 2024  
Roedd yr wybodaeth hon yn gywir wrth  
fynd i'r wasg, Mehefin 2025  
© Hawffraint y Goron (a chronfa ddata) [2023]  
OS [100023509]. Arolwg Ordnans [100023509].

## Llwybr Arfordir Gŵyr

Mae rhan Gŵyr a Bae Abertawe o Lwybr Arfordir Cymru'n ymestyn o borthladd Abertawe a Glannau SA1 yn y dwyrain, o amgylch Bae Abertawe a Phenrhyn Gŵyr, i Gasllwchwr yn y gorllewin.



Mae Llwybr Arfordir Gŵyr, gyda'i olygfeydd arfordirol syfrdanol, yn eich tywys drwy Dirwedd Genedlaethol Gŵyr, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU - rhywbeth arbennig i gerddwyr a phobl sy'n dwlu ar natur.

Darganfyddwch fwy am gerdded yn Abertawe a Gŵyr yn: **[abertawe.gov.uk/cerdded](http://abertawe.gov.uk/cerdded)**

## Manylion Cyswllt Defnyddiol

[www.croesobaeabertawe.com](http://www.croesobaeabertawe.com)

[www.abertawe.gov.uk/tirweddgenedlaetholgwy](http://www.abertawe.gov.uk/tirweddgenedlaetholgwy)

 [facebook.com/gowernationallandscape](https://facebook.com/gowernationallandscape)

 [@TirweddGenedlaetholGwyr](https://www.instagram.com/TirweddGenedlaetholGwyr)

[www.traveline.cymru](http://www.traveline.cymru) / 0800 464 00 00

Mae taflenni cerdded eraill ar gael yn y rhesel y tu mewn i fynedfa Canolfan Ddinesig Abertawe, Oystermouth Road, Abertawe SA1 3SN, neu fel ffeiliau pdf i'w lawrlwytho yn:

**[www.abertawe.gov.uk/cerdded](http://www.abertawe.gov.uk/cerdded)**

Roedd yr wybodaeth yn gywir wrth fynd i'r wasg - Mehefin 2025.